



Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

Ein cyfeirnod: P-04-349

12 Rhagfyr 2012

Annwyl Syr/Madam

Fel y gwyddoch, o bosibl, mae Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn bodoli i ystyried yr holl ddeisebau derbyniadwy a gaiff eu cyflwyno gan y cyhoedd a rhanddeiliaid.

Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi cael y ddeiseb a ganlyn:

Llofnodwch i gefnogi 'Cofrestr o'r rhai sy'n cam-drin anifeiliaid', sef cronfa ddata ganolog a fydd yn cynnwys enw, cyfeiriad a cholffarnau'r rhai sydd wedi'u cael yn euog o unrhyw fath o greulondeb at anifeiliaid, neu o gam-drin anifeiliaid, yng Nghymru. Bydd yn ofynnol i'r rhai sy'n bridio neu'n gwerthu anifeiliaid edrych drwy'r gronfa ddata ganolog hon cyn caniatáu i unrhyw anifail y maent yn berchen arno, neu wedi'i fridio, fynd at ddarpar berchennog neu i gartref newydd; os daw i'r amlwg bod anifail yng ngofal rhywun sydd wedi'i ddyfarnu'n euog o greulondeb at anifail, neu o'i gam-drin, bydd y cyflenwr neu'r bridwr yn atebol a chaiff ei erlyn. Ar hyn o bryd, nid oes cyfraith i atal rhywun a ddyfarnwyd yn euog o greulondeb at anifail rhag symud ychydig filltiroedd i fyny'r ffordd a chael anifail arall i'w gam-drin ymhellach. Yn ogystal â chreu cofrestr o'r rhai sy'n cam-drin anifeiliaid, mae angen rhoi cyfreithiau llymach ar waith i helpu i ddiogelu anifeiliaid, i roi dirwyon trymach i droseddwr a'u dedfrydu i gyfnodau hirach yn y carchar.

Mae'r gyfraith hon ar waith eisoes yn ninas Efrog Newydd a nifer o daleithiau eraill yn UDA, felly beth sy'n rhwystro Cymru rhag cymryd yr awennau yn y Deyrnas Unedig? Rydych wedi clywed am Gyfraith Sarah, a luniwyd i rwystro troseddwr rhyw rhag aildroseddu. Yn awr rydym yn gobeithio cael cyfraith i geisio atal y rhai sydd wedi cam-drin anifeiliaid rhag achosi rhagor o greulondeb, neu rhag dechrau cam-drin pobl. Mae gwaith ymchwil yn dangos

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

bod cysylltiad cryf iawn rhwng cam-drin anifeiliaid a cham-drin domestig. Mae llawer o lofruddion yn dechrau drwy arteithio anifeiliaid ac, yn y pen draw, gallem hefyd ddiogelu bywydau pobl.

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i ystyried y mater yn fanylach i archwilio'r goblygiadau deddfwriaethol ac ymarferol a fyddai ynghlwm wrth greu cofrestr o'r rhai sy'n cam-drin anifeiliaid y byddai'n rhaid i werthwyr neu fridwyr droi ati cyn gwerthu unrhyw anifail.

Hoffem glywed barn unigolion, grwpiau a chyrrff am destun y ddeiseb hon. Caiff y sylwadau eu defnyddio fel tystiolaeth gan y Pwyllgor Deisebau wrth iddo ystyried y ddeiseb.

Materion y gallech eu hystyried wrth ymateb

Byddai'r Pwyllgor yn hoffi clywed sylwadau am:

- Beryglon a manteision creu cofrestr o'r rhai sy'n cam-drin anifeiliaid yng Nghymru.
- Y goblygiadau cyfreithiol ac ymarferol a fyddai ynghlwm wrth roi dyletswydd ar werthwyr / bridwyr i ddefnyddio'r gofrestr.
- Y goblygiadau gweinyddol ac ariannol a fyddai ynghlwm wrth gynhyrchu cofrestr o'r fath a sut y gellid ymdrin â'r rhain ac, yn benodol:
 - Pwy ddylai fod yn gyfrifol am weinyddu'r gofrestr?
 - Pwy ddylai fedru gweld y wybodaeth yn y gofrestr?
 - Sut y dylid ariannu'r gwaith o weinyddu'r gofrestr?
 - Pa fanylion am droseddwy'r dylid eu cynnwys yn y gofrestr?
- Sut y gellid plismona'r gofrestr a phwy ddylai fod yn gyfrifol am sicrhau bod gwerthwyr / bridwyr yn cydymffurfio â'r gofyniad i edrych ar y gofrestr.
- Y cosbau a'r troseddau a ddylai fod ynghlwm wrth beidio â chydymffurfio o safbwynt y troseddwy'r a'r gwerthwyr / bridwyr.
- Y goblygiadau trawsffiniol a fyddai ynghlwm wrth gynhyrchu cofrestr ar gyfer Cymru yn unig.

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, byddem yn ddiolchgar pe baech yn ei hanfon atom erbyn **dydd Mawrth 5 Chwefror 2013**. Gallwch anfon copi electronig o'ch sylwadau at petition@wales.gov.uk. Fel arall, gallwch ysgrifennu at:

Clerc y Pwyllgor Deisebau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ymateb i gais i gyfrannu at yr ymgynghoriad

Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymatebion gan unigolion a sefydliadau. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, rhowch ddisgrifiad byr o rôl y sefydliad.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg a bydd yn ystyried yr ymatebion i'r ymchwiliad cyn penderfynu a yw am gynnal sesiynau tystiolaeth lafar yn ystod tymor y gwanwyn / haf.

Dylai sylwadau gyrraedd erbyn **dydd Mawrth, 5 Chwefror 2013**. Mae'n bosibl na fydd modd ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Er gwybodaeth, mae'r Pwyllgor wedi gofyn i'r rhai sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr atodol anfon sylwadau. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar petaech yn gallu anfon copi o'r llythyr hwn at unrhyw unigolion neu sefydliadau nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr, ond a hoffai gyfrannu at yr ymchwiliad. Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i roi ar wefan y Cynulliad ynghyd â gwahoddiad agored i gyflwyno sylwadau.

Datgelu Gwybodaeth

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i bwyllgor. O ganlyniad, efallai y bydd eich ymateb yn ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth ategol sy'n rhan o adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth a ystyrir yn ddata personol.

Os cawn gais gan wybodaeth o fan ddeddfwriaeth y DU, mae'n bosibl y bydd angen datgelu'r wybodaeth a gawsom gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, eich cyfrifoldeb chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Yn gywir



William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Rhestr Ddosbarthu

RSPCA

Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu

Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cymdeithas Milfeddygon Prydain

Coleg Brenhinol y Milfeddygon

Cronfa Ryngwladol Lles Anifeiliaid

Cymdeithas Cyfreithwyr Lles Anifeiliaid

The Kennel Club

Yr Ymddiriedolaeth Cŵn

Gwarchod Cathod

Achub Milgwn Cymru

Yr Ymddiriedolaeth Ceffylau

Cyngor Cenedlaethol Lles Ceffylau

Cymorth i Anifeiliaid

PET Care Trade Association

Ffederasiwn Busnesau Bach

Cymdeithas y Merlod a'r Cobiau Cymreig

Yr Ymddiriedolaeth Lles Anifeiliaid

Thoroughbred breeders Association

The Governing Council of the Cat Fancy

Cymdeithas Bridwyr Cathod

Cymdeithas Ceffylau Prydain

The International Cat Association

Cyngor Cwningod Prydain

Cymdeithas Bochdewion Prydain

Feline Advisory Bureau

Y Grŵp Trawsbleidiol ar Geffylau

Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru

Undeb Amaethwyr Cymru

Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad